| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyngor Llawn |
| **DYDDIAD** | 11 Gorffennaf 2024 |
| **TEITL** | Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2023-24 |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Menna Trenholme |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |

## 1 Cefndir / Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan y Panel Strategol Diogelu yn ystod 2023-24.

1.2 Credir i'r adroddiad grynhoi gwaith y Panel yn gywir a theg, gan hefyd gynnwys cyfeiriadau at adroddiadau neu sylwadau gan archwilwyr allanol ar y gwaith hwn.

## 2 Rhesymau dros argymell y Penderfyniad

2.1 Mae'n hanfodol fod holl aelodau'r Cyngor yn ymwybodol o waith y Panel ar ddiogelu ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.

2.2 Mae gofyn i'r Cyfarwyddwr Statudol adrodd yn gyson a rheolaidd i aelodau ar faterion diogelu.

## 3 Argymhelliad

3.1 Gofynnir i'r Cyngor dderbyn yr Adroddiad gerbron sy'n adrodd ar waith y Panel Strategol Diogelu ar gyfer y flwyddyn 2023-24.

## 4 Barn y Swyddogion Statudol

4.1 Barn y Swyddog Monitro

Fel aelod o'r Panel rwy'n croesawu'r adroddiad sydd yn grynodeb priodol o'r gwaith  Mae'n gyfrwng i roi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â'r cyfrifoldeb allweddol yma.

4.2 Barn y Pennaeth Cyllid

Nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant newydd, a nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.